teithiobyw
activetravel

Cynnal a Chadw Beiciau Cronfa

Lle i ddechrau?



Mae dwy lefel o gynnal a chadw beiciau y bydd angen i chi eu hystyried a chael system ar eu cyfer. Dyma hwy:

1. Gwirio beiciau a chynnal a chadw sylfaenol

Bydd angen gwneud y gwiriad 'M' sylfaenol yn rheolaidd. Mae hwn yn golygu gwneud gwiriad diogelwch o holl brif ddarnau symudol y beic (ceir rhestr wirio ar ddiwedd y ddogfen hon) a chydag ymarfer, ni ddylai hyn olygu mwy na rhwng munud a dau funud ar gyfer pob beic. Yn ddelfrydol, dylech hyfforddi o leiaf un neu ddau aelod o'r staff i wneud hyn, a'r un bobl ddylai'r rhain fod â'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun. Bydd angen i'r bobl sy'n cynnal y cynllun hefyd allu dangos i ddefnyddwyr newydd y cynllun beiciau cronfa sut i wneud y gwiriad 'M', fel y gallant gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am sicrhau bod y beic yn ddiogel cyn ei ddefnyddio.

Bydd angen i'r bobl sy'n gwneud y gwiriad 'M' gael eu hyfforddi i drwsio diffygion bychain. Bydd y rhain yn cynnwys pynjar, addasu'r breciau a newid uchder seddau.

2. Gwaith cynnal a chadw mwy anodd

Weithiau, bydd y gwiriad 'M' yn dangos diffygion mwy cymhleth megis gêr anunion neu granc rhydd, padiau brêc wedi gwisgo neu ymyl olwyn wedi plygu. Bydd diffygion felly angen sylw gan aelod o'ch staff a gafodd hyfforddiant dwysach mewn cynnal a chadw beiciau, neu bydd angen eu cyfeirio at siop trwsio beiciau.

Nid oes raid i chi allu datgymalu beic er mwyn cynnal a chadw fflyd o feiciau cronfa. Gellir dysgu'r rhan fwyaf o'r gwaith trwsio arferol mewn cwrs undydd ar gynnal a chadw beiciau.

Cefais gynnig gwasanaeth am ddim ar gyfer y flwyddyn gyntaf gan fy nghyflenwr beiciau. A ddylwn ei dderbyn?

Ni fyddai'n syniad da gwrthod y cynnig o wasanaeth am ddim, mae angen cofio nifer o bethau. Y peth cyntaf a'r pwysicaf yw na ddylai cytundeb cyfyngedig gyda'ch cyflenwr gymryd lle datblygu cynllun cynnal a chadw llawn. Ni fydd eich

cyflenwr yn gallu gwneud y gwiriadau rheolaidd a'r atgyweiriadau cyffredin y bydd angen i chi eu gwneud yn gyson. Yr ystyriaeth arall yw y bydd eich cynllun, mwy na thebyg, angen amser i sefydlu ei hun, ac erbyn eich gwasanaeth cyntaf ychydig iawn o ddefnydd fydd wedi ei wneud o rai o'ch beiciau. Oherwydd hynny, mae'n well trafod dewis amseriad y gwasanaeth cyntaf er mwyn cael y budd mwyaf ohono. Nid yw'n anghyffredin, er hynny, i gael diffygion bychain yn fuan wedi prynu'r beiciau, wrth i ddarnau'r beic 'setlo'. Oherwydd hynny, ceisiwch isafswm o flwyddyn o warant gyda'r beiciau yn ogystal â gwasanaeth am ddim.

Sut hyfforddiant cynnal a chadw sydd ar gael ar gyfer staff?

Dylai cwrs undydd ar gynnal a chadw fod yn ddigonol i alluogi aelod o staff i wneud y gwiriad 'M' ac atgyweiriadau bychain (er y gall hyn amrywio yn ôl profiad a dawn naturiol). Mae Hyfforddiant Beicio Cymru (gweler y manylion cyswllt isod) yn cynnig cwrs undydd ar gynnal a chadw a gynlluniwyd yn arbennig ar gyfer pobl sy'n cynnal cynllun beiciau cronfa a phrosiectau llogi beiciau. Mae'r prisiau'n amrywio yn ôl y lleoliad a'r nifer sydd ar y cwrs. Mae'n bosibl y bydd modd i chi gydweithio â sefydliadau eraill i gynnal digwyddiad hyfforddiant ar y cyd ar gyfer staff.

Fe welwch efallai y gall hyfforddiant cynnal a chadw beic sylfaenol fod yn boblogaidd gyda defnyddwyr beiciau cronfa. Yn ogystal â helpu i godi safon sgiliau beicio cyffredinol pobl, gall hyn helpu i leddfu ofnau beicwyr newydd a beicwyr sy'n ailgydio ynddi ynglŷn â chael trafferth â pynjar.

Mae cwrs cynnal a chadw mwy dwys, 'Cytech', i'w gael trwy rai darparwyr yn Lloegr. Mae hwnnw wedi ei anelu yn bennaf at bobl broffesiynol yn y diwydiant cynnal a chadw beiciau, a gall fod yn rhy fanwl o ran yr hyn sydd arnoch chi ei angen i gynnal eich cynllun.

Faint o le fydd ei angen arnom i wneud y gwaith cynnal a chadw?

Yn ddelfrydol dylid gwneud y gwaith cynnal a chadw yn yr un lle, neu'n agos i'r fan y cedwir y beiciau. Dyna fyddai fwyaf hwylus ac effeithiol. Bydd angen i chi gael lle i storio offer a darnau sbâr, gyda lle i symud beic (o leiaf 3m x 6m). Byddwch angen digon o le i droi'r beic wyneb i waered yn rhwydd heb daro eich holl offer, ac yn ddelfrydol bydd lle i roi beic ar stondin gynnal a chadw. Os yw eich beiciau mewn cynhwysydd y tu allan, gallech wneud y gwaith cynnal a chadw y tu allan, ond bydd hynny'n amlwg yn fwy anodd mewn tywydd drwg.

Pa fath o offer a chyfarpar fydd angen i ni eu prynu?

Ni fydd arnoch angen llawer o gyfarpar i wneud y gwaith trwsio syml. Bydd y canlynol yn hanfodol:

Pympiau teiars beic: dylech brynu pwmp ar gyfer pob beic, i'w osod ar y ffrâm. Hefyd, efallai y byddech am brynu 'pwmp trac' ar gyfer defnydd cyffredinol y swyddfa - mae'r rhain yn gofyn am lai o egni i'w defnyddio.

Tiwbiau mewnol sbâr: dylai fod gennych gyflenwad o diwbiau mewnol sbâr fel y gellir trwsio pynjar yn gyflym.



Offer trwsio pynjar: dylai pob beic gael ei offer trwsio pynjar ei hun, i'w roi ynghlwm wrth y beic gyda thiwb mewnol (gellir prynu bagiau bychain ar gyfer hyn, a'u cydio wrth bostyn y sedd).

Allweddau allen: mae llawer o ddarnau beic angen allweddau allen o wahanol faint, e.e. ar gyfer addasu breciau.

Setiau sbaneri: os nad oes gennych olwynion a seddau 'datod sydyn', byddwch angen set o sbaneri.

Olew cadwyn beic: bydd angen i chi iro'r cadwynau bob hyn a hyn, yn arbennig os yw'r beiciau yn gwlychu llawer.

Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i brynu stondin trwsio beic, sy'n caniatáu i chi godi'r beic oddi ar y llawr er mwyn gwneud atgyweiriadau. Ond nid yw hwn yn hanfodol gan y gellir gwneud yr holl dasgau sylfaenol trwy droi'r beic ben i waered.

Ni ddylech fod angen rhagor o offer na hyn er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw pob dydd. Dylid gadael i beiriannydd beic cymwys newid ceblau brêc, padiau brêc a cheblau ger, ac felly ni fydd angen i chi gadw'r eitemau hynny mewn stoc.

Y gwiriad 'M' neu'r Gwiriad Diogelwch

Ceir templed ar gyfer cofnodi eich gwiriad 'M' check, ynghyd â gwybodaeth bellach yn www.activetravelcymru.org.uk/toolkit.

Manylion Cyswllt

Os hoffech drafod y wybodaeth a roddir yma, neu unrhyw agwedd arall ar sefydlu cynllun beiciau cronfa neu deithio byw, gallwch gysylltu â: Sandra Booth, Cydlynydd Teithio Byw, Ffôn: 029 2065 0602, E-bost: sandra.booth@sustrans.org.uk.

Cafodd y Pecyn Cymorth Teithio Byw yn y Gweithle
ei ddatblygu mewn partneriaeth a'r Cyngor Chwaraeon Cymru.

sports council wales
cyngor chwaraeon cymru